

2017 Rhif (Cy.)

2017 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Heol Pontarddulais, Tŷ-croes, Sir
Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 20
mya Rhan-amser) 2017

The A483 Trunk Road
(Pontardulais Road, Tycroes,
Carmarthenshire) (Part-time 20
mph Speed Limit) Order 2017

Gwnaed 21 Chwefror 2017

Made 21 February 2017

Yn dod i rym 23 Chwefror 2017

Coming into force 23 February 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (“y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the Swansea – Manchester Trunk Road (A483) (“the trunk road”), in exercise of the powers conferred upon them by section 84(1), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Chwefror 2017 a’i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Pontarddulais, Tŷ-croes, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2017.

1. This Order comes into force on 23 February 2017 and its title is The A483 Trunk Road (Pontardulais Road, Tycroes, Carmarthenshire) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2017.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yn Nhŷ-croes yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 124 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn hyd at bwynt 26 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Penygarn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn ei ddangos.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig

21 Chwefror 2017

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" ("*lluoedd arbennig*") means those units of the home forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director.

Restriction

3. No person shall drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour in the length of the trunk road at Tycroes in the County of Carmarthenshire that extends from a point 124 metres south-west of the centre-point of its junction with Derlyn Park to a point 26 metres south-west of the centre-point of its junction with Heol Penygarn.

Application

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers

Dated

21 February 2017

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (HEOL
PONTARDDULAIS, TŶ-CROES, SIR
GAERFYRDDIN) (TERFYN CYFLYMDER 20
MYA RHAN-AMSER) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 84(1), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 23 Chwefror 2017.

Effaith y Gorchymyn yw cyflwyno terfyn cyflymder 20 mya rhan-amser ar ddarn o gefnffordd yr A483 o'r enw Heol Pontarddulais, Tŷ-croes, Sir Gaerfyrddin er mwyn gostwng cyflymder traffig sy'n gyfagos i Ysgol Gynradd Tŷ-croes. Bydd y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o bwynt 124 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn hyd at bwynt 26 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Penygarn yn ddarostyngedig i'r terfyn cyflymder rhan-amser. Dim ond am gyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn ystod y tymor ysgol y bydd y terfyn cyflymder 20 mya yn gymwys ac ni ddisgwylir iddo fod yn weithredol ar benwythnosau: bydd y terfyn cyflymder 30 mya presennol mewn grym ar bob adeg arall.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 22 Chwefror 2017 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a phlan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Rhydaman, 3 Stryd y Gwynt, Rhydaman SA18 3DN neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1263293/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2017).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (PONTARDULAIS
ROAD, TYCROES, CARMARTHENSHIRE)
(PART-TIME 20 MPH SPEED LIMIT) ORDER
2017**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under section 84(1), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 23 February 2017.

The effect of the Order is to introduce a part-time 20 mph speed limit on a length of the A483 trunk road known as Pontardulais Road, Tycroes, Carmarthenshire in order to reduce the speed of traffic adjacent to Ysgol Gynradd Tycroes. The length of the A483 trunk road that extends from a point 124 metres south-west of the centre-point of its junction with Derlyn Park to a point 26 metres south-west of the centre-point of its junction with Heol Penygarn will be subject to the part-time speed limit. The 20 mph speed limit will only apply for limited periods of the day during school term time and is not expected to operate at weekends: at all other times the existing 30 mph speed limit will be in force.

During a period of 6 weeks from 22 February 2017 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Ammanford Library, 3 Wind Street, Ammanford SA18 3DN or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1263293/1.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2017).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government